north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 20 Mawrth, 2020

**TEITL:** *Trefn Lywodraethol y Rhaglenni*

**AWDUR:** *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno trefniadau llywodraethu arfaethedig y rhaglenni er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cadarnhau'r egwyddor o fabwysiadu dull rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynnwys sefydlu Byrddau Rhaglen i oruchwylio'r cyflawni gweithredol.

2.2. Cadarnhau'r egwyddor o benodi Aelod Arweiniol ar gyfer pob rhaglen i weithredu fel y cyswllt rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Byrddau Rhaglen unigol a gwneud cais am bapur pellach yn amlinellu'r rôl a'r goblygiadau llywodraethu ehangach cyn gwneud penderfyniad terfynol ar benodi Aelodau Arweiniol.

2.3. Cymeradwyo strwythur cyflawni arfaethedig fel sydd wedi'i amlinellu yn ***Atodiad 1*** a dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol i weithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglenni a gwneud yr holl benodiadau eraill (ac eithrio'r rôl Aelod Arweiniol) i'r Byrddau Rhaglen.

2.4. Y bydd yr is-grwpiau presennol ar gyfer Ynni a Digidol yn cael eu disodli gan y Byrddau Rhaglen unwaith y byddent wedi'u sefydlu.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae angen i'r Swyddfa Rhaglen fabwysiadu model llywodraethu'r rhaglenni i sicrhau bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio cymhleth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 14 prosiect ar draws chwe rhaglen waith, gyda chyfanswm gwerth o tua £1 biliwn i'w cyflawni dros y 15 mlynedd nesaf. Mae Rhaglen Sgiliau ychwanegol yn eistedd y tu allan i delerau'r Cynllun Twf ond mae'n gydran hanfodol o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gogledd. Caiff ei gyflawni gan y Swyddfa Rhaglen, ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, partneriaeth o chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, dau sefydliad addysg bellach a chyngor busnes. O ystyried graddfa a chymhlethdod y bartneriaeth a phortffolio'r gwaith sydd i'w gyflawni, mae angen sefydlu model clir ar gyfer llywodraethu'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.

4.2. Cynigir bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i

amlinellu yn *'Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery'.* Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

4.3. Mae ***Atodiad 1*** yn amlygu'r dull llywodraethu arfaethedig.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim ar hyn o bryd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ar fodel arfer gorau fel sydd wedi'i amlinellu yn 4.2 uchod. Mae gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru rym o fewn GA1 i sefydlu naill ai is-bwyllgorau statudol neu grwpiau eraill i gefnogi ei swyddogaethau. Yn yr achos yma ni chynigir is-bwyllgorau ffurfiol. Fel sydd wedi'i amlygu yn yr adroddiad, os cymeradwyir egwyddor y dull hwn, caiff cylch gorchwyl a threfn gwneud penderfyniadau manwl eu datblygu, ynghyd â chwblhau'r trefniadau aelodaeth a'r trefniadau llywodraethu ynghylch y cyrff ymgynghorol. Adroddir am y rhain i'r Bwrdd am gymeradwyaeth terfynol.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim ar hyn o bryd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 6 Mawrth 2020.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Datblygu model Llywodraethu'r Portffolio, y Rhaglenni a'r Prosiectau er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Rwyf wedi cyfrannu at y sylwadau cyfreithiol o fewn yr adroddiad. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Yn gyffredinol, rwy'n gefnogol i'r trefniadau llywodraethu rhaglenni arfaethedig. Hyderaf y bydd grymoedd gwario yn cael eu cadw gan y Cyd-bwyllgor (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Cyfarwyddwr Rhaglen, fel sy'n briodol."